



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

ASESIAD EFFAITH

# Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021: asesiad effaith integredig

Ystyried effaith targedau hinsawdd fwy uchelgeisiol ar lesiant.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Chwefror 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Chwefror 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

[Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?](#)

[Adran 7. Casgliad](#)

[Section 8. Declaration](#)

## Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021

Teitl y cynnig

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021:

- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021

Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r  
Asesiad Effaith Integredig

Graham Craig  
Y Tîm Datgarboneiddio

Adran

Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Pennaeth yr Is-adran/Uwch-  
swyddog Cyfrifol (enw)

Chris Wheeler

Y Gweinidog sy'n gyfrifol

Lesley Griffiths AS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dyddiad Cychwyn

12 Mai 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Noder: Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae adrannau 1, 7 ac 8 wedi eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau. Mae adrannau eraill ar gael ar gais.

## Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

### Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau a gynigir gan Lywodraeth Cymru.

Mae gwyddoniaeth hinsawdd yn parhau i ddangos bod gweithgarwch dynol yn cynhesu'r blaned a bod yr effaith ddilynol ar batrymau tywydd yn arwain at ganlyniadau cynyddol negyddol i ecosystemau, economïau a phobl. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynyddu targedau hinsawdd Cymru mewn ymateb i'r wyddoniaeth hinsawdd ddiweddaraf ac argymhellion y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd:

- Cyllideb Garbon 2 (2021-2025): 37% islaw'r llinell sylfaen ar gyfartaledd gyda therfyn credyd ('gwrthbwysu') o 0%
- Cyllideb Garbon 3 (2026-2030): 58% islaw'r llinell sylfaen ar gyfartaledd
- targed 2030, gostyngiad o 63% i allyriadau o'u cymharu â'r llinell sylfaen
- targed 2040, gostyngiad o 89% i allyriadau o'u cymharu â'r llinell sylfaen
- targed 2050, gostyngiad o 100% neu fwy i allyriadau o'u cymharu â'r llinell sylfaen ('sero net')

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif costau a buddion y Llwybr Cytbwys tuag at sero net yn 2050 a argymhellir gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Fodd bynnag, mae effaith wirioneddol cyflawni ein targedau ar ein nodau a'n hamcanion llesiant yn dibynnu ar y mesurau a'r polisïau a ddewisir. Nodir y polisïau hyn mewn adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllideb garbon, a chyhoeddir y nesaf ym mis Tachwedd 2021. Mae polisïau i gyflawni ein cyllidebau carbon yn ddarostyngedig i broses ymgysylltu a'u hasesiadau effaith eu hunain.

Sut ydych chi wedi / a wnewch chi gymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau arfaethedig, drwy gydol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

y polisi a'r cylch cyflenwi?

## Tymor hir

Trwy bennu fframwaith hirdymor ar gyfer cyflawni'r targed sero net erbyn 2050, mae'r Rheoliadau yn darparu cerrig milltir a chyfeiriad ar gyfer llwybr datgarboneiddio Cymru, ac mae'r cyllidebau carbon yn helpu i ganolbwyntio camau gweithredu tymor agos er mwyn ein galluogi i gyrraedd ein nod hirdymor. Maent yn darparu eglurder i weledigaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer dyfodol sero net, ac ymrwymiad iddo. O'r herwydd, maent yn darparu cyd-destun fel y gall rhai sy'n gwneud penderfyniadau heddiw amddiffyn anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Sut bynnag y cyflawnir y targedau a'r cyllidebau, bydd lleihau allyriadau Cymru yn helpu i leihau'r effeithiau ar Gymru a'r byd sy'n deillio o dymheredd uwch. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys llifogydd, risgiau i iechyd, prinder dŵr a risgiau i fioamrywiaeth.

## Atal

Trwy ymdrin ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r Rheoliadau yn gosod y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael ag achos sylfaenol y materion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Maent yn creu angen am fesurau a pholisïau a fydd yn lleihau allyriadau ac felly'n helpu i leihau effeithiau byd-eang newid yn yr hinsawdd. Bydd cyflawni targedau gostwng allyriadau Cymru a byd-eang yn cyfyngu ar effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan leihau'r angen am gamau i ymaddasu ac osgoi'r effeithiau ar ein hamgylchedd, ein cymdeithas a'n heconomi.

## Integreiddio

Yn ogystal â lleihau effeithiau yn fyd-eang, mae cymryd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn helpu i gefnogi'r nodau datblygu cynaliadwy byd-eang. Mae'r Rheoliadau yn cyflawni ymrwymiad Ffyniant i Bawb i "[b]ennu llwybr carbon isel gan roi eglurder a sicrwydd fel bod modd gweithredu a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

buddsoddi...drwy osod targedau ar gyfer 2020, 2030 a 2040". Wrth weithio tuag at y targedau, bydd modd mabwysiadu mesurau a pholisïau sy'n cefnogi blaenoriaethau ac ymrwymïadau eraill Llywodraeth Cymru a chyflawni buddion y tu hwnt i leihau allyriadau. Mae enghreifftiau o bolisïau o'r fath yn cynnwys:

- Mae newid o ddefnyddio cerbydau preifat i gerdded neu feicio yn lleihau allyriadau ac yn gwella iechyd
- Mae inswleiddio cartrefi yn lleihau allyriadau, yn gostwng biliau ynni ac yn gwella iechyd
- Mae lleihau'r allyriadau sy'n deillio o ddefnyddio cerbydau preifat yn gwella ansawdd yr aer ac iechyd

Ystyrir effaith mesurau a pholisïau ar gyrff cyhoeddus eraill a'u hamcanion llesiant.

## Cydweithio

Mae'r Rheoliadau yn darparu'r dulliau technegol a'r fframwaith llywodraethu ar gyfer cyflawni'r targed sero net erbyn 2050 o ran lleihau allyriadau. Er mwyn cyflawni'r targed hwnnw, bydd angen cyfraniadau sylweddol gan nifer enfawr ac amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys:

- Holl adrannau Llywodraeth Cymru
- Adrannau Llywodraeth y DU
- Cyrff eraill yn y sector cyhoeddus
- Cwmnïau ynni
- Darparwyr trafndiaeth
- Gweithgynhyrchwyr
- Ffermwyr a thirfeddianwyr
- Unigolion

Yn Llywodraeth Cymru, mae Bwrdd Portffolio Trawslywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi ystyried cyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ac wedi gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

Nodir mesurau a pholisïau mewn adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllideb garbon,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ac ym mis Tachwedd 2021 fydd y nesaf. Mae polisiâu ar gyfer cyflawni ein cyllidebau carbon yn ddarostyngedig i broses ymgysylltu a chyfnod ymgynghori ffurfiol, pan fo hynny'n briodol.

## Cyfranogiad

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan ein corff cynghori, y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ac ystyried y cyngor hwnnw cyn gosod rheoliadau. Cyhoeddwyd y cyngor hwn ym mis Rhagfyr 2020. Cynhaliodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd Gais am Dystiolaeth i gefnogi eu cyngor. Gwnaethom gynnal digwyddiadau i randdeiliaid gyda'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn Llandudno a Chaerdydd ym mis Ionawr 2020. Roedd dros 70 o gynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau yn bresennol.

Roedd y Cais am Dystiolaeth yn gyfle i bartïon â buddiant lywio cyngor ac argymhellion y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i Lywodraeth Cymru. Wrth i bolisiâu gael eu datblygu er mwyn cyflawni'r targedau a'r cyllidebau, byddwn yn cynnwys y rhai yr effeithir arnynt er mwyn deall yr ystod lawn o effeithiau. Effaith, Costau ac Arbedion

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried costau, buddion ac effeithiau y Llwybr Cytbwys a argymhellir gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd.

## Adran 7. Casgliad

### 7.1 Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynnig?

Wrth baratoi eu cyngor, cynhaliodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd Gais cyhoeddus am Dystiolaeth er mwyn casglu sylwadau gan sefydliadau ac unigolion ar faterion sy'n berthnasol i'r rheoliadau, yn ogystal â Chyllideb Garbon 6 y DU. Cynhaliwyd y Cais am Dystiolaeth o 5 Rhagfyr 2019 i 5 Chwefror 2020. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ddau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddigwyddiad i randdeiliaid yn ystod y cyfnod: un yn Llandudno ar 20 Ionawr 2020 ac un yng Nghaerdydd ar 21 Ionawr 2020, ac roedd oddeutu 60 o gynrychiolwyr yn bresennol.

Roedd pedwar cwestiwn yn y Cais am Dystiolaeth â phwyslais ar Gymru. Cafwyd rhwng 11 a 37 o ymatebion i bob un [1]. Mae trosolwg lefel uchel o'r ymatebion a rhestr o ymatebwyr ar gael yn nogfen Crynodeb o'r ymatebion y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd [2].

Rydym wedi cyhoeddi ein Dull Ymgysylltu ar gyfer Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 sy'n disgrifio sut yr ydym yn bwriadu cynnwys a chydweithio â phobl a rhanddeiliaid drwy gydol 2021. Rydym hefyd yn parhau i ymgynghori ar y polisiau sydd eu hangen i gyflawni'r cyllidebau a'r targedau carbon, megis Strategaeth Gwefru Ceir Trydan, Adolygiad o Rannau L ac F o'r Rheoliadau Adeiladu, a Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

## **7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?**

### **7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nid yw'n bosibl nodi effeithiau'r rheoliadau gan mai dim ond darparu'r fframwaith statudol ar gyfer lleihau allyriadau y maent. Mae effaith cymryd camau i gyflawni'r targedau a'r cyllidebau carbon yn dibynnu ar y mesurau a'r polisiau a ddewisir. Nodir y polisiau hyn mewn adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllideb garbon, a chyhoeddir y nesaf ym mis Tachwedd 2021. Mae polisiau i gyflawni ein cyllidebau carbon yn ddarostyngedig i broses ymgysylltu ac asesiadau effaith, gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan fo hynny'n briodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Fodd bynnag, darparodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd syniad o'r effeithiau a allai deillio o'r cyfnod pontio sero net yn eu cyngor ym mis Rhagfyr 2020 [3]. Nododd Grŵp Cynghori Arbenigol ar Iechyd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd bum maes allweddol y byddai eu gweithredu yn cyflwyno buddion i iechyd y cyhoedd ac yn lleihau anghydraddoldeb iechyd, gan gyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd:

1. Gwell ansawdd aer a gyflawnir trwy symud i system ynni lanach a symud i ffwrdd o losgi tanwydd ffosil ym mwyafrif y sectorau yn y DU.
2. Dulliau iachach o deithio, yn enwedig oherwydd y buddion iechyd sy'n deillio o gerdded a beicio, a lleihau llygredd aer o gerbydau ffordd.
3. Cartrefi mwy cyfforddus ac effeithlon sy'n garbon isel, yn effeithlon o ran ynni ac wedi eu cynllunio ar gyfer hinsawdd sy'n newid.
4. Gwell deiet gyda phwyslais ar ddewisiadau eraill, sy'n iach ac yn gynaliadwy, yn lle'r bwydydd carbon uchaf.
5. Modelau economaidd a chyflogaeth gynaliadwy sy'n cefnogi iechyd a llesiant yn well.

Gan nodi'r manteision posibl i iechyd y cyhoedd, nododd y Grŵp mai'r ysgogiad mwyaf o hyd i ganlyniadau iechyd yn y DU yw anghydraddoldeb economaidd. Felly mae trawsnewidiad teg yn rhan hanfodol o bolisi hinsawdd a pholisi iechyd llwyddiannus.

Tynnodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd sylw hefyd at yr effeithiau cadarnhaol ar natur sy'n deillio o sawl mesur sydd wedi'u cynnwys yn eu senarios:

- Plannu coed: gwella ansawdd aer, rheoleiddio llifogydd a llif stormydd.
- Adfer mawndiroedd: diogelu rhag llifogydd, a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.
- Defnydd mwy effeithlon o wrteithiau mewn amaethyddiaeth (ansawdd dŵr a bioamrywiaeth).

## 7.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo ddatblygu a phan fydd yn dod i ben?

Bob blwyddyn, cyhoeddir adroddiad ar Restr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



Gweinyddiaethau Datganoledig ar wefan y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol [4]. Mae'n cymryd 18 mis i lunio'r data allyriadau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y cyhoeddir data 2018 yn ystod haf 2020. Bydd Rhestr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Cymru yn dangos a yw bwriad y polisi y tu ôl i'r rheoliadau yn cael ei gyflawni ai peidio.

Hefyd, cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y cyfnod cyllidebol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad ar ôl pob cyfnod cyllidebol yn nodi a yw Cymru wedi cyflawni'r gyllideb, a yw wedi debydu neu gredydu unrhyw unedau carbon ac yn rhoi manylion am fath a nifer yr unedau. Er enghraifft, bydd y datganiad ar gyfer Cyllideb Garbon 1 (2016-20) yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2022. Heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad cynnydd terfynol ar gyfer y cyfnod cyllidebol, mae'n rhaid i'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ddarparu adroddiad sy'n nodi ei safbwyntiau ar y ffordd y cyflawnwyd, neu na chyflawnwyd, y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod, a'r camau a gymerodd Gweinidogion Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr net Cymru yn ystod y cyfnod. Os bydd Cymru'n methu â chyflawni cyllideb garbon, o fewn tri mis i gyhoeddi'r datganiad, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad yn disgrifio sut y bydd yn gwneud iawn am yr allyriadau gormodol yn ystod cyfnodau cyllidebol diweddarach.

Yn yr un modd, cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn targed interim berthnasol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad ynghylch a yw'r targed allyriadau interim wedi ei gyrraedd ai peidio. Er enghraifft, bydd y datganiad ar gyfer targed 2020 yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2022. Yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru, bydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhoi cyngor ar ba un a yw'r targed(au) interim sydd ar ddod a tharged 2050 y targed uchaf y gellir ei gyrraedd yng Nghymru. Os nad ydyw, mae'n rhaid iddi ddatgan beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyrraedd.

**[1] Chweched Targed y Gyllideb Carbon ac allyriadau Cymru - Crynodeb o'r Galwad am Dystiolaeth**

**[2] Targedau allyriadau Cymru: Crynodeb o'r ymatebion i Alwad am Dystiolaeth** (Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, 2020)

**[3] Y Ilwybr i Net Zero a symud ymlaen i leihau allyriadau yng Nghymru**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Erch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Section 8. Declaration

Rwyf yn fodlon bod effaith y camau arfaethedig wedi ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Chris Wheeler

Adran: Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Dyddiad: 27 Ionawr 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig.html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd \(Cymru\) 2021: asesiad effaith integredig](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/rheoliadau-newid-yn-yr-hinsawdd-cymru-2021-asesiad-effaith-integredig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).